Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Oaklea Grange

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Oaklea Grange

Ymunodd Oaklea Grange â'r gofrestr ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru ym mis Ionawr 2023. Mae'r ysgol yn rhan o Young Foundations Limited, sef grŵp sy'n berchen ar ysgolion a chartrefi plant yn Lloegr a'r Alban, ar hyn o bryd. Mae'r grŵp yn rhan o bortffolio MRA UK Investments Limited.

Ysgol Oaklea Grange yw ysgol gyntaf y cwmni yng Nghymru. Gall yr ysgol addysgu uchafswm o 8 disgybl rhwng 11 ac 18 mlwydd oed. Mae 5 disgybl ar gofrestr yr ysgol, ar hyn o bryd. Mae pob un o'r disgyblion yn byw yn y cartref plant ar y safle.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion ag anawsterau'n ymwneud â'u hiechyd cymdeithasol, emosiynol a'u hiechyd meddwl; trawma ac ymlyniad; ac ymddygiad.

Mae'r ysgol mewn lleoliad gwledig. Mae'r adeilad ar draws dau lawr ac yn cynnwys tair ystafell ddosbarth, swyddfa a gardd.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, yn aml ar ôl profi bylchau sylweddol yn eu haddysg.

Mae disgyblion yn groesawgar i ymwelwyr ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â staff. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth weithio'n annibynnol, er enghraifft wrth ystyried sut mae gemau'n helpu plant bach i ddatblygu eu medrau echddygol manwl a bras. Maent hefyd yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion mewn grwpiau bach.

Mae disgyblion yn datblygu eu hyder. Maent yn mynegi eu barn yn glir, er enghraifft wrth drafod perthnasedd prif themâu 'Christmas Carol' mewn cymdeithas heddiw.

Mae gan ddisgyblion swyddi cyfrifol o fewn yr ysgol, gan gynnwys yr eiriolwr iechyd meddwl, hyrwyddwr darllen a'r swyddog iechyd a diogelwch. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd arwain dilys hyn.

Mae pob un o'r staff yn hynod effeithiol o ran diwallu anghenion lles a dysgu disgyblion. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio proffesiynol cryf, sy'n arwain at amgylchedd dysgu tawel ac anogol.

Ceir diwylliant diogelu cryf ac mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm hynod deilwredig ar gyfer pob disgybl. Mae athrawon yn cynllunio gwersi diddorol sy'n datblygu medrau a dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau newydd, er enghraifft gwneud sushi wrth ddysgu am ddiwylliant Japan. Maent yn defnyddio adnoddau ysgogol ac yn adeiladu ar brofiadau blaenorol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol a diddorol i ddisgyblion ymgysylltu â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn perfformio yn y pentref lleol, a disgyblion yn cyfrannu at y banc bwyd lleol.

Mae'r pennaeth yn angerddol am ddatblygiad llwyddiannus yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion, fel ei gilydd. Mae ganddi weledigaeth gref ar gyfer yr ysgol, sy'n cael ei deall a'i rhoi ar waith yn dda gan gymuned yr ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn bodloni holl Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

### *Meysydd i'w gweithredu a argymhellir*

- Gwreiddio'r arfer effeithiol a welwyd yn ystod yr ymweliad hwn
- Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr adborth ysgrifenedig

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Cymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/02/2024